# Cyngor Ieuenctid Cymru
## Wales Youth Agency

# *Crynodeb o waith Cyngor Ieuenctid Cymru*

- *Sefydlwyd Cyngor Ieuenctid Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ym 1992 i gefnogi datblygiad gwasanaethau i bobl ifanc trwy Gymru. Mae'n gorff annibynnol gyda chymorth grantiau gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

- ***Ei bwrpas yw hyrwyddo, cynnal a chynorthwyo sectorau gwirfoddol a statudol y gwasanaeth ieuenctid er mwyn datblygu a gwella ansawdd arferion gwaith ieuenctid yng Nghymru.***

- ***I wneud hyn, mae Cyngor Ieuenctid Cymru yn***

  - ***cynorthwyo** datblygu cwricwlwm gwaith ieuenctid.*
  - ***hyrwyddo** datblygiad staff ac achredu hyfforddiant.*
  - ***annog** a datblygu partneriaeth gyda phobl ifanc a rhwng asiantaethau a sefydliadau statudol a gwirfoddol.*
  - ***hyrwyddo** systemau cyfathrebu, marchnata a gwasanaethau gwybodaeth.*
  - ***cynnal** ymatebion cydweithredol i flaenoriaethau penodol.*

- *Llywodraethir Cyngor Ieuenctid Cymru gan Fwrdd Rheoli a gefnogir gan Gyngor Ymgynghorol yn cynnwys unigolion a chynrychiolwyr cyrff yng Nghymru er mwyn darparu ystod eang o brofiad ac arbenigedd. Mae is-bwyllgorau a grwpiau cynllunio a grwpiau gwaith yn helpu llunio polisi ac arfer mewn meysydd penodedig.*

- *Gellir cael gwybodaeth bellach am unrhyw agwedd ar y gwaith a drafodir yn y pamffledyn hwn trwy gysylltu â'r person cyfrifol fel y'i ceir yn yr adran 'pobl'.*

- *Noder, roedd y wybodaeth hon yn gywir wrth fynd i'r wasg (Ebrill 2001) ond gall newid.*

## Pobl...

*Roy Noble . Cadeirydd*
*Dr Howard Williamson . Is-gadeirydd*
*Brian Williams . Prif Weithredwr*
*John Rose . Prif Weithredwr Cynorthwyol*

***Hyfforddiant & Gwybodaeth:***
*Barry Doughty . Cwricwlwm & Pholisi*
*Helen Payne . Sector Ieuenctid Gwirfoddol*
*John Rose . Hyfforddiant*
*Jean Reader . Cyfnewidiadau Ieuenctid*
*Liz Sharp . Gwybodaeth i Weithwyr Ieuenctid*
*Courtney Taylor . Hyfforddiant*
*Wayne Warner . Grantiau CIGC*

***Swyddogion Dros dro:***
*Katie Antippas . Llais Ifanc / Fforymau*

***Gweinyddiaeth:***
*Pam Osborn . Uwch Weinyddwraig*
*Leanne Morgan . Gweinyddwraig Gynorthwyol*
*Maria Randell . Gweinyddwraig Gynorthwyol*
*Joan Thomas . Gweinyddwraig Gynorthwyol*

***Swyddi Allanol:***
*Bert Jones . Hyfforddiant*

**Cyngor Ieuenctid Cymru**
**Ffôn: 029 20 855700**
**Ffacs: 029 20 855701**
**e-bost: wya@wya.org.uk**
**gwefan: www.wya.org.uk**

## ...Hyfforddiant i Weithwyr Ieuenctid

- Cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant yw datblygu prosesau cymeradwyo ac achredu ar gyfer safonau hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned yng Nhgymru.

- Gwneir hyn trwy ddatblygu canllawiau ar gyfer hyfforddiant cyflwyniadol achrededig i weithwyr newydd a chymeradwyaeth broffesiynol hyfforddiant i weithwyr amser-llawn, rhan-amser a gwirfoddol.

- Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi arwain at ddatblygiad diweddar y Ffordd Hyfforddiant Gydlynol sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygiad personol o safon aelod hyn at uwchraddedigion.

- Mae a wnelo Cyngor Ieuenctid Cymru hefyd â datblygu canllawiau ar gyfer polisïau datblygiad staff, a moddion i'w hyrwyddo, ar gyfer awdurdodau unedol a'r sector gwirfoddol.

## ...Datblygu'r Cwricwlwm a Pholisïau

- Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n creu moddion i awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol ennill achrediad proffesiynol i'r systemau a ddatblygir ganddynt, yn unol â safonau ansawdd cyfoes.

- Gellir ymgynghori â chyrff gwaith ieuenctid parthed datblygu systemau sicrhau ansawdd. Cynigir cefnogaeth a chyngor hefyd i gyrff ieuenctid sy'n dymuno darparu rhaglenni achredu i bobl ifanc a chynlluniau i gofnodi eu cyflawniad. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys Youthtrain 2000 a Chofnodion Cyrhaeddiad.

- Rydym hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i gyrff unigol am ddatblygu a chynllunio strategol, a datblygiad polisi, ac rydym yn cefnogi a rhannu ymarfer yng Nghymru.

- Mae Cyngor Ieuenctid Cymru yn rheoli'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion yn ogystal, sy'n ceisio defnyddio sgiliau gwaith ieuenctid i wella presenoldeb, codi cyrhaeddiad a gwella agweddau tuag at gyfleoedd dysgu i bobl ifanc.

- Mae'r strategaeth 'Iechyd Gwell Cymru Well' yn cydnabod rôl bwysig y gwasanaeth ieuenctid o ran cefnogi maes hybu iechyd. Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n cynnig cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i hyrwyddo rôl gwaith ieuenctid yn y gwaith hwn. Mae hefyd yn datblygu prosiectau peilot yn y maes.

## ...Gwybodaeth i Weithwyr Ieuenctid

- Mae gwaith gwybodaeth y Cyngor yn cynnwys:
  - casglu a rhannu gwybodaeth berthnasol
  - cynhyrchu enghreifftiau o waith da
  - cynnal canolfan adnoddau
  - cyhoeddi dogfennau a phecynnau gwybodaeth

- Pigion, pecyn gwybodaeth deufisol sy'n cynnwys manylion am gyrsiau, cynhadleddau, nawdd ac adnoddau newydd.

- Mae'r ganolfan adnoddau yn cadw cyhoeddiadau perthnasol, pecynnau adnoddau a fideos. Mae'r mwyafrif o'r adnoddau ar fenthyg i weithwyr ieuenctid a rheolwyr gwaith ieuenctid am gyfnodau byr. Croesawir ymwelwyr i'r ganolfan bob amser (rhowch wybod ymlaen llaw!). Mae yna rhestr o adnoddau ar gael ar ein gwefan.

- Cydlynir gwaith gwybodaeth y Cyngor gan grwp gwybodaeth cenedlaethol.

- Mae'r Cyngor hefyd yn medru roi gwybodaeth polisi diweddaraf, yn enwedig ar ddatblygiadau yn y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond hefyd ar lefelau DU ac Ewropeaidd.

## ...Gweithgareddau Ieuenctid Rhyngwladol

- Mae Pwyllgor Cyfnewid Ieuenctid Cymru'n amcanu gwella maint ac ansawdd gweithgaredddau cyfnewid ieuenctid rhyngwladol. Mae'r Pwyllgor yn dyfarnu grantiau o gronfeydd y llywodraeth a'r Undeb Ewropeiadd er mwyn cefnogi gweithgareddau rhwng grwpiau ieuenctid yng Nghymru a phobl ifanc mewn gwledydd eraill (yn Ewrop yn bennaf ond mewn rhannau eraill o'r byd yn ogystal). Rhaid i rai sy'n cymryd rhan fod rhwng 15-25 oed.

- Mae Gwobrau Ieuenctid y Mileniwm y Cyngor Prydeinig ar gael hefyd. Cyllidir y rhain gan Gomisiwn y Mileniwm a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r grantiau hyn yn ei gwneud yn bosibl i bobl 18-30 oed gael profiad o wlad dramor a datblygu mewn ffyrdd a fydd yn cyfoethogi eu cymunedau.

- Mae cyfarwyddyd a ffurflenni cais arbennig ar gael gan y Cyngor.

## ...Y Sector Ieuenctid Gwirfoddol

- Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n cefnogi gwaith Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), sef corff o aelodau sy'n cynrychioli buddiannau'r Sector Ieuenctid Gwirfoddol yng Nghymru.

- Corff dan arweiniad ei aelodau yw CWVYS sy'n cynrychioli 20,000 o Weithwyr Ieuenctid Gwirfoddol sydd yn eu tro yn gweithio gyda rhagor na 200,000 o bobl ifanc. Gall unrhyw Gorff Ieuenctid Gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc 14-25 oed ymaelodi, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r meini prawf aelodaeth.

- Gall CWVYS helpu drwy ddarparu: Cefnogaeth, Rhwydweithio, Llais Gwirfoddol, Erioli, Hyfforddiant, Cyngor a Gwybodaeth, Cyhoeddusrwydd, Mynediad i wasanaethau Cyngor Ieuenctid Cymru, persbectif y DU ac Iwerddon drwy'r Rhwydwaith Pedair Gwlad, Mynediad i rwydweithiau Ewropeaidd, Seinfwrdd i brosiectau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid neilltuedig, Rhannu yr Arfer Gorau, Mentrau Ieuenctid Newydd, datblygu polisiau trefniadol a gwleidyddol, Hwyluso, Achredu rhaglenni ieuenctid, Tueddiadau cyfoes mewn gwaith ieuenctid.

## ... Cynllun Grantiau'r CIGC

- Mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i Gyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol yng Nghymru.

## ... Dinasyddiaeth

- Mae'r Cyngor yn chwarae rhan weithgar mewn cynlluniau dinasyddiaeth er mwyn helpu pobl i ddatblygu llais ystyrlon mewn materion Cymreig. Yn neilltuol, mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Cynulliad Cenedlaethol mewn prosiect o bwys - **Llais Ifanc** - i alluogi pobl ifanc i gael eu dweud am flaenoriaethau polisi'r Cynulliad.

## ...Gwybodaeth i Bobl Ifanc

- Cyflawnir y swyddogaeth yma bellach gan fudiad newydd, sef Canllaw Online. I wybod rhagor cysylltwch ag Elise Stewart, Canllaw Online, Bloc A, Van Court, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.
  Ffôn 029 20 887868
  E-bost: elisestewart@btclick.com